COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 7fed o RAGFYR 2015 YN SWYDDFA'R CYNGOR,NEUADD PONTIETS AM 7.00.

Presennol: Geraint Rosser (yn y gadair),Margaret Rees,Geoff Hewitt,Aled Williams, Ian Evans, Tyssul Evans,Linda Williams,Heddwyn Jones,Alan Lewis a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Carrie Rees,Wendy Evans,Meic Bowen,Ellis Jenkins a Richard Thomas

Materion Personol

1296 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd Mynegwyd pryder am afiechyd y Cynghorydd Richard Thomas sydd yn awr yn Ysbyty Dyffryn Aman. Danfonwyd cyfarchion am adferiad buan iddo.Estynnwyd cyfarchion i'r Cadeirydd ar iddo ddathlu Pen-blwydd arbennig. Hefyd nodwyd, gyda balchder, llwyddiant y brawd Dyfan Rees, mab y Cynghorydd Margaret Rees ar iddo dderbyn gwobr gan 'MIND' am ei gwaith actio yn ddiweddar.

1297 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 02/11/2015 fel rhai cywir.

1298 Materion yn codi.

Tud. 1 Cofnod Rhif 1245 - Parcio Tacsis ym Mhontiets. - Cafwyd adroddiad gan y Clerc bod y mater yn nwylo'r Cyngor Sir a'r Heddlu.Pasiwyd ein bod yn gwneud ymholiadau pellach ynglŷn â'r mater.

Tud. 3 Cofnod Rhif 1293 - Gwarchodfa Bws - Heol y Delyn,Crwbin. - Cafwyd adroddiad gan y Clerc o'r drafodaeth gyda Chwmni Yswiriant Zurich.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1299 Ambiwlans Awyr Cymru -. Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

1300 Bobath Canolfan Therapi Plant Cymru - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

Cynghorwyr Ian Evans ac Aled Williams yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1301 Carway Short Mat Bowls Club - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

Ian ac Aled yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cynghorydd Alan Lewis,Is-gadeirydd yn y gadair

Cynghorwyr Ian Evans,Aled Williams,Tyssul Evans,Linda Williams a Geraint Rosser yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1302 Ysgol Gwynfryn - Penderfynwyd o achos bod amgylchiadau yn yr Ysgol wedi newid ein bod yn cytuno i'r cyfraniad a rhoddwyd tuag at apêl Canopi newydd i'r Ysgol o dan Gofnod rhif 1199 (dyddiedig 06/07/15) am £3000 yn awr i fynd tuag at adnoddau ar gyfer ardal allanol yr Ysgol.

Ian,Aled,Tyssul,Linda a Geraint yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cynghorydd Geraint Rosser,Cadeirydd yn ôl yn y gadair

Cynghorwyr Ian Evans,Aled Williams a Tyssul Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1303 Cymdeithas Lesiant Carwe a'r Cylch - Clwb Pêl-droed a Chriced Carwe - Grisiau newydd - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £11109.60 o Gronfa Ffoslas.

Ian,Aled a Tyssul yn ail ymuno a'r cyfarfod.

1304 Cancer Information & Support Services - Llythyr yn diolch am y rhodd.

1305 Moreia Meinciau - Llythyr yn diolch am y rhodd.

1306 Nasareth Pontiets - Llythyr yn diolch am y rhodd.

1307 Pwyllgor Lles Llangyndeyrn - Llythyr yn diolch am y rhodd.

1308 Clwb Cyndeyrn – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1309 Cymdeithas Lesiant Carwe a'r Cylch – Llythyr yn diolch am y rhodd tuag at Neuadd Carwe.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1310 Awdurdod Tan ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru – Cynllun Gwella Blynyddol Drafft Awdurdod Tan ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer 2016-2017 – Nodwyd y llythyr.

1311 Cyngor Sir Gar - Ail Asesiad Statudol o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae - Nodwyd y llythyr.

1312 Cyngor Sir Gar – Apel Teganau Nadolig – Casglwyd anrhegion yn y Cyfarfod.

1313 Pontyates Park and Recreation Association- Gan fod y Gymdeithas wedi ei dirwyn i ben penderfynwyd y byddai'r Cyngor yn barod i gadw dogfennau'r Gymdeithas yn ddiogel yn Swyddfa'r Cyngor.

Ceisiadau Cynllunio

1314

Ceisiadau Cynllunio:

- Miss Bethan Charles – Nesa at Nythfa,Carwe - Newid Rheolau – Dim Gwrthwynebiad.
- Mr a Mrs E Jones – Fferm Cwm Eynon,Pedair Heol – Newid i Adeilad Bwyd Anifeiliaid – **Gwrthwynebiad ar sail bod yr heol yn gul a'r Groesffordd yn anaddas i Gerbydau trwm.- Cyfarfod Safle i'w gynnal ar 15/12/15 am 11.15 y bore. Cynghorydd Heddwyn Jones i siarad ar ein rhan.**

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

1315 Derbyniwyd adroddiadau ariannol Mis Tachwedd 2015.

Adroddiad Ariannol Misol

1316 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
a) Cyflog y Clerc - £371.25 (Mis Tachwedd)

b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Tachwedd)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £97.52 (Mis Tachwedd)
ch) HMRC (Treth)- £74.20 (Mis Tachwedd)
d) Llungopïwr newydd - £164.98
dd) 'Top-up' Ffon Symudol - £20.00
e) Society of Local Council Clerks - £103.00

1317 Ffon Symudol y Clerc

Wedi trafodaeth penderfynwyd ein bod yn newid i gytundeb misol o £9.99 yn syth.

1318 Cronfa Ffoslas

Cafwyd adroddiad gan y Clerc ein bod wedi derbyn cyfraniad ychwanegol o £68142.00 oddiwrth Tai Persimmon Ffoslas,Carwe. Awdurdodwyd y Clerc i agor cyfrif ychwanegol gyda banc HSBC a throsglwyddo arian Ffoslas i'r cyfrif newydd.

1319 Rheilffordd Pontiets

Cafwyd adroddiad gan y Clerc a'r Cynghorydd Heddwyn Jones o'r Cyfarfod a gafwyd gyda Ian Ashton o Reilffordd Cwm Gwendraeth.Wedi trafodaeth lwyr penderfynwyd ein bod yn symud ymlaen i edrych am ffynonellau ariannol.

Materion Cynghorwyr

1320 Ian

- Trefnu 2 lwyth o scalps i fynd i Gwm Lewis
- Cysylltu â'r 'Llanelli Star' i ddweud nad yw Coed Ffoslas yn Nhrimsaran.
- Mentro i weld pwy sy'n berchen a'r tir nesa at Nythfa,Carwe.

1321 Tyssul Trefnu llwyth o scalps i Gae Clover

1322 Margaret Cysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â chyflymder traffig trwy Grwbin.

Cyfarfod nesaf:- 4ydd o Ionawr 2016 yn Swyddfa'r Cyngor,Neuadd Pontiets am 7.00 o'r gloch.
(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd……. CADEIRYDD

Dyddiad……